

Ffioedd Cofrestru – cyfres Mehefin 2020

Mae CBAC wedi cwblhau adolygiad o'i ffioedd ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020. Gan fod arholiadau'r haf wedi'u canslo eleni, sylweddolwn y byddwn yn gallu arbed rhai costau. Fel corff dyfarnu ac elusen sydd wedi ymrwmo i gefnogi ein canolfannau, rydym yn falch o allu trosglwyddo'r arbedion hynny nôl i chi. O ganlyniad, o ran y cymwysterau perthnasol a effeithiwyd gan ganslo'r arholiadau haf eleni ac oherwydd bod llai o weithgareddau asesu eleni, rydym yn falch o allu rhoi gostyngiad o 23% ar ein [ffioedd cofrestru cyhoeddedig](#).

Cyfrifwyd y gostyngiad hwn mewn ffioedd drwy ystyried yr arbedion costau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â chyfres yr haf ac unrhyw gostau cysylltiedig ychwanegol sy'n deillio o effaith y pandemig ar ein cymwysterau.

Ffioedd a godwyd:

Cynlluniau llinol

(Eduqas TGAU a TAG, rhai cymwysterau TGAU CBAC, Lefel 1/2 Lladin a Mathemateg Ychwanegol, Lefel Mynediad, Project Estynedig, Sylfaen Celf a Dylunio a Llwybrau Ieithoedd)

- Gweithredwyd gostyngiad o 23% ar y ffi cofrestru cyhoeddedig ar gyfer y cymwysterau hyn.
- Os cyflwynodd y ganolfan gofrestrïadau ond heb allu darparu gradd asesu canolfannau, nid oedd unrhyw daliadau'n weithredol.

Cynlluniau unedol

(Lefel 1/2 Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol; Lefel 3 Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol, CBAC TGAU a TAG, Iaith ar Waith, Cymraeg Gwaith, Llwybrau Mynediad a Bagloriaeth Cymru)

- Gweithredwyd gostyngiad o 23% ar y ffi cofrestru unedau cyhoeddedig ar gyfer y cymwysterau hyn.
- Mae'r gostyngiad hwn yn berthnasol i'r ffi cofrestru i bob uned a gofrestrwyd yng nghyfres Mehefin 2020 oedd yn cyfrannu at gyfnewid i ardystio cymhwyster cyfan.
- Os cyflwynodd y ganolfan gofrestrïadau uned a chyfnewid ond heb allu darparu gradd asesu canolfannau, nid oedd unrhyw daliadau'n weithredol. Ar gyfer CBAC TAG, os cyflwynodd y ganolfan gofrestrïadau uned a chyfnewid ar gyfer UG ac U2 gan ddarparu gradd asesu canolfannau ar gyfer UG yn unig, ni chodwyd am yr un o'r unedau U2.

Cymwysterau eraill

Nid yw'r ffioedd cofrestru ar gyfer y cymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru wedi'u haddasu gan nad yw'r broses asesu wedi newid fawr ddim. Codir y ffioedd am y cymhwyster hwn ar y cyfraddau a gyhoeddir yn ein [dogfen ffioedd](#).

Cyhoeddir manylion y ffioedd ar gyfer y gyfres Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru maes o law.

Ffioedd heb eu codi:

Ni chodwyd unrhyw ffioedd cofrestru yn yr achosion canlynol:

- ymgeisydd wedi'i gofrestru a'i dynnu'n ôl wedi hynny
- uned wedi'i chofrestru heb gyfnewid sy'n golygu na chasglwyd unrhyw radd asesu canolfannau*
- canlyniad dim gradd wedi'i gyflwyno gan y ganolfan. Mae hyn yn cynnwys cofrestriadau ymgeiswyr Preifat nad oedd yn bosibl i ganolfan gyflwyno gradd ar eu cyfer, neu lle trosglwyddodd yr ymgeisydd preifat i ganolfan arall, cofrestriadau cyfnewid yn unig, gwall gweinyddol (e.e. dylai'r ymgeisydd fod wedi'i dynnu'n ôl) neu amgylchiadau eithriadol eraill.

Ni chodwyd unrhyw gosbau hwyr neu hwyr iawn waeth pryd y cyflwynwyd y cofrestriad.

Proses

Defnyddiwyd gwybodaeth o'n systemau i redeg anfonebau. Defnyddiwyd pwynt penodol i wneud hynny ar ôl terfyn amser cyflwyno graddau asesu canolfannau ar 19 Mehefin. Ni fydd hyn yn cynnwys unrhyw newidiadau hwyr sy'n ymwneud â chofrestriadau neu gyflwyniadau graddau asesu canolfannau. Prosesir y rhain yn ddiweddarach. *

Byddwn yn dosbarthu anfonebau i ganolfannau yn electronig o ddiwedd mis Mehefin, a byddem yn ddiolchgar pe byddai unrhyw anfonebau'n cael eu talu cyn gynted â phosibl. Noder na fyddwn yn anfon copïau caled drwy'r post.

Dylid anfon nodiadau talu dros e-bost at cyfrifon@cbac.co.uk

Ymholiadau

Cysylltwch â cyfrifon@cbac.co.uk os oes gennych unrhyw gwestiynau am ffioedd neu am eich anfoneb.

Cysylltwch â cofrestriadau@cbac.co.uk os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich cofrestriadau.

*Mae'r cyfnod diweddarach ar gyfer casglu graddau asesu canolfannau ar lefel uned ar gyfer y cymwysterau Lefel 1/2 Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol yn golygu yr anfonebir y canolfannau yn ddiweddarach am yr unedau hynny y cyflwynir graddau asesu canolfannau ar eu cyfer.